# Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
## Adroddiad a Datganiadau Ariannol
## ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP
Ffôn (029) 2039 7951
www.aocc.ac.uk

Cynhyrchydd: Mari Gordon
Cyfieithydd: Catherine Jones
Dylunio: A1 Design
Argraffu: Mid Wales Litho

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 2003
ISBN 0 7200 0542 6

Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol
Cofrestrwyd fel Elusen (rhif 525744)

# cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad Ariannol y Cyngor | 4 |
| Llys y Llywodraethwyr/Cyngor/Bwrdd y Rheolwyr | 9 |
| Datganiad ar y System Rheoli Arian Fewnol | 10 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr | 10 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 11 |
| Cyfriflen Gyfunol o Weithgarwch Ariannol | 12 |
| Mantolen Gyfunol | 14 |
| Cyfriflen Gyfunol o Lif Arian | 15 |
| Nodiadau ar y cyfrifon | 16 |

# Adroddiad Ariannol y Cyngor

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC) drwy Siarter Brenhinol ym 1907 fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Fel corff siartredig annibynnol ac elusen gofrestredig; rydym yn derbyn ein cyllid craidd ar ffurf cymhorthdal gan Lywodraeth y Cynulliad fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Ei amcan craidd yw hyrwyddo addysg y cyhoedd ac mae hyn yn cynnwys datblygu ein casgliadau, gofalu amdanynt, eu hastudio a sicrhau bod ei gasgliadau yn agored er budd y gymdeithas yn gyffredinol. Mae'r Siarter (1907, diwygiwyd ym 1991) yn nodi y dylid gwneud hynny:

> *yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynoleg, sŵoleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru drwy gasglu, diogelu, egluro, cyflwyno a chyhoeddi gwrthrychau a phethau.*

## Amcanion AOCC

Dyma brif nodau ac amcanion AOCC :

- hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth eang am dreftadaeth, diwylliant a swyddogaeth Cymru yn natblygiad a hanes y byd;
- darparu gwasanaeth amgueddfa genedlaethol ar gyfer Cymru sy'n ganolfan ragoriaeth ryngwladol, gan sicrhau'r gofal gorau posibl ar gyfer ein casgliadau o fri a phwys cenedlaethol a rhyngwladol;
- hyrwyddo ymchwil, astudiaeth a gwerthfawrogiad o'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thechnoleg, drwy ein casgliadau a'n harbenigedd;
- ysbrydoli cynulleidfa sy'n tyfu o hyd i ymweld â'n hamgueddfeydd gwych ac elwa ar eu hadnoddau a'u cyfleusterau amrywiol;
- datblygu ein holl adnoddau'n gall a'u defnyddio mewn ffordd greadigol ac effeithiol, gan sicrhau darbodaeth a gwerth am arian

Mae Cynllun Corfforaethol cyfoes AOCC yn dangos sut byddwn ni'n mynd i'r afael â phum mater strategol i gyd-fynd â nifer o amcanion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- ennill cydnabyddiaeth ehangach am ei berthnasedd i anghenion cymdeithas gynhwysol
- gwneud ei gasgliadau, a'r wybodaeth sy'n gynhenid ynddynt, yn fwy hygyrch fyth
- sicrhau ei fod yn gallu edrych ar ôl y casgliadau a'r ystadau a ymddiriedwyd i'w ofal
- hyrwyddo arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol, a datblygu diwylliant sefydliadol meddwl-agored
- gwella ei sail ariannu er mwyn galluogi iddo wireddu ei flaenoriaethau.

Cenhadaeth AOCC 'yw dweud wrth Gymru am y byd ac wrth y byd am Gymru'. Drwy ddehongli a gweithredu blaenoriaethau AOCC mewn ffyrdd cyfoes a deinamig, rydym ni'n profi y tu hwnt i amheuaeth bod amgueddfeydd yn chwarae rhan allweddol yn y gymdeithas. Drwy helpu i gyflawni strategaethau blaenllaw Llywodraeth y Cynulliad, fel y Cynllun i Gymru, Cymru Greadigol a Chymru ar ei Hennill, mae AOCC yn helpu Cymru i fod yn gynhwysol, yn gynaliadwy, yn fwy cyfartal a gwybodus; yn wlad ddiwylliedig, a hynny yn ystyr llawnaf y gair.

## Lleoliadau

Mae AOCC yn gweithredu chwe amgueddfa ar draws Cymru yn uniongyrchol:

| | |
|---|---|
| Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ym Mharc Cathays, Caerdydd | (AOG) |
| Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, Caerdydd | (AWC) |
| Amgueddfa'r Lleng Rufeinig yng Nghaerllion, Casnewydd | (ALIR) |
| Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis, Gwynedd | (ALC) |
| Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru yn Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin | (ADGC) |
| Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru, Blaenafon, Torfaen | (PM) |

Yn ogystal, rydym ni wrthi'n datblygu trefniadau partneriaeth newydd i reoli dau safle arall sef:

| | |
|---|---|
| Amgueddfa Rufeinig Segontium yng Nghaernarfon, Gwynedd | (ARS) |
| Oriel Tŷ Turner ym Mhenarth, Bro Morgannwg | (TT) |

Mae AOCC yn gweithredu Canolfan Gasgliadau yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf hefyd. Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu Canolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol

ar gyfer Cymru yno.

Ar ôi i Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru ym Mae Caerdydd gau ym 1998, bu AOCC yn edrych ar nifer o leoliadau eraill ar gyfer amgueddfa newydd i adrodd stori hanes diwydiannol Cymru, ac yn sgil ymgynghori â'r cyhoedd, dewiswyd Abertawe fel lleoliad ar gyfer y project £30m.

Ar 10 Chwefror 2003, gwahoddwyd Prif Weinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddechrau'r gwaith mewn seremoni i urddo'r safle, ac erbyn diwedd Mawrth, roedd y project ar y llwybr iawn o ran ei gyllideb a'i amserlen, i agor yng Ngwanwyn 2005.

## Fformat y Cyfrifon

Cafodd y cyfrifon eu paratoi dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 ar ffurf a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac a gymeradwywyd gan y Trysorlys. Mae copi o'r Cyfeireb Cyfrifon ar gael drwy wneud cais i'r Pennaeth Cyllid a TG. Mae cyfrifon yr Amgueddfa yn cyd-fynd â gofynion y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP 2000) 'Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau'. At ddibenion y SORP, Adroddiad Ariannol y Cyngor yw Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr.

## Canlyniadau a Chyllid

Derbyniodd yr Amgueddfa adnoddau incwm net o £4,314,000 cyn costau (£4,111,000 yn 2000-01). Derbyniodd yr Amgueddfa adnoddau gwerth £24,965,000 (£24,313,000 yn 2000-01) a chyfanswm adnoddau net yr Amgueddfa a wariwyd oedd £21,771,000 (£20,705,000 yn 2000-01) cyn costau tybiannol. Y cynnydd net yn y cronfeydd ar gyfer y flwyddyn ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl enillion a cholledion a wireddwyd ac na wireddwyd oedd £14,277,000 (cynnydd net o £5,529,000 yn 2000-01). Balans y cronfeydd ar 31 Mawrth 2003 oedd £86,755,000 (£72,478,000 ar 31 Mawrth 2002). Cofnododd Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru Cyf. (gynt Matchtake Cyf.) elw o £6,271 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03 (£28,882 yn 2001-02). O 1 Ebrill 2003 trosglwyddwyd y mwyafrif o weithgareddau masnachu'r Amgueddfa i'r is-gwmni masnachu hwn sy'n llwyr eiddo i AOCC.

## Dangosyddion Perfformiad

Roedd perfformiad yr Amgueddfa yn erbyn targedau'r dangosyddion perfformiad sylfaenol a bennwyd ar ei chyfer gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei llythyr Gorchwyl fel a ganlyn:

| Dangosydd perfformiad sylfaenol | 2002-03 targed (000) | **2002-03 alldro (000)** | 2001-02 alldro (000) |
|---|---|---|---|
| 1 Nifer yr ymwelwyr | 1,150 | **1,278** | 1,430 |
| 2 Nifer yr ymweliadau â'r wefan | 600 | **541** | 481 |

Nodiadau

1 Mae niferoedd terfynol yr ymwelwyr 11% yn uwch na'r targed a 67% yn uwch na'r lefelau a welwyd cyn cyflwyno mynediad am ddim.

2 Er ei bod 10% yn is na'r targed, mae'r ffigur hwn yn dangos gwelliant o 12.5% ar y flwyddyn flaenorol. Bydd yr Amgueddfa yn ail-lansio ei wefan yn 2003-04.

## Perfformiad Talu'n Brydlon

Mae'r Amgueddfa yn cefnogi amcanion côd ymarfer *Better Payment* y Trysorlys a'i nod yw talu anfonebau dilys cyn pen 30 diwrnod. 12 diwrnod oedd y cyfnod cyfartalog ar gyfer talu anfonebau yn 2002-03 (22 diwrnod yn 2001-02), a thalwyd 97% cyn pen 30 diwrnod (90% yn 2001-02).

## Codi Arian a Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy at waith AOCC eto eleni. Mae dros chwedeg o Gyfeillion gwirfoddol wedi gweithio o fewn adrannau, wedi helpu i godi arian neu wedi cyfrannu at weithgareddau Blaen Tŷ.

Er bod llawer o ymdrechion yr Amgueddfa i godi arian wedi troi o gylch cyflawni datblygiadau cyfalaf mawr, gwelwyd cynnydd cyson mewn nifer o feysydd eraill. Mae nifer y Noddwyr yn parhau i dyfu, gan ddarparu incwm di-gyfyngiad, ac er gwaethaf yr amodau economaidd anodd dros ben, mae nawdd ar gyfer arddangosfeydd wedi bod yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

## Buddsoddiad Cyfalaf ac Asedau Sefydlog

Mae'r gwaith mawr a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith ar y seilwaith TGCh a Gweithdy'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw.

Mae'r gwaith wedi parhau ar broject ailddatblygu gwerth £7.1m ym Mhwll Mawr sy'n cael ei ariannu drwy grant CDL (£5.3m), grant LRF (£0.5m), grant BCC (£0.4m) a

grantiau a rhoddion eraill (£0.9m). Ar 31 Mawrth 2003 roedd cyfanswm gwariant gwirioneddol o £4m ar y project.

Roedd gwaith wedi dechrau ar broject ailddatblygu £2m ADGC sy'n cael ei ariannu drwy grant CDL (£1m), grant ERDF(£0.4m) a chyllid cyfatebol oddi wrth AOCC (£0.6m). Ar 31 Mawrth 2003 roedd cyfanswm gwariant gwirioneddol o £697,000 ar y project.

Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd gan Lywodraeth y Cynulliad swm o £3.9m (o'r £4.5m gwreiddiol) ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Tynnwyd gwerth £1.8m o gyllid i lawr o'r gwaith adeiladu a gyflawnwyd yn 2002-03, gan adael £2.1m i'w wario ar adeiladu dros y flwyddyn nesaf. Dyma gyfraniad ariannol uniongyrchol yr Amgueddfa at y project

## Caffael Sbesimenau

Gwnaed 3 phwrcas mawr yn 2002-03:

*O Willesden Green, Hydref* gan Leon Kossoff, am gost o £74,000 i'r Amgueddfa gyda chymorth cyfraniad gwerth £66,000 oddi wrth Ymddiriedolaeth Derek Williams (DWT).

*Di-deitl (Hanes)* gan Rachel Whiteread, am gost o £40,000 i'r Amgueddfa gyda chymorth cyfraniadau gwerth £40,000 oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol (NACF) a £40,000 oddi wrth DWT.

*Tirlun â Phorth Bwa* gan Adam Pynacker, am gost o £117,000 i'r Amgueddfa gyda chymorth cyfraniad gwerth £41,000 oddi wrth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol (NACF).

Roedd yr eitemau gwariant eraill yn cynnwys gorffen y gwaith o adfer yr Ardd Eidalaidd yn AWC am gyfanswm cost o £173,000, parhad y gwaith ar Eglwys Llandeilo Tal-y-bont, Gorsaf Heddlu Ffynnon Taf a Beudy Cae Adda yn AWC ynghyd â phrynu rhai mân arteffactau, ychwanegu at gasgliad y llyfrgell a gwaith maes gan y gwahanol adrannau curadurol.

## Datblygiadau ar gyfer y Dyfodol

### Datblygiadau ym Mhwll Mawr: Yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol (PM)

Mae gwaith datblygu sylweddol gwerth £7m yn mynd rhagddo ym Mhwll Mawr i sicrhau cadwraeth y peiriannau dan ddaear a'r adeiladau sydd ar y wyneb yn ogystal â gwella'r cyfleusterau dehongli a'r orielau i arddangos casgliadau'r diwydiant glo o Bwll Mawr ac AOCC. Ariennir y gwaith yn bennaf drwy grant CDL. Bwriedir cwblhau'r gwaith ailddatblygu yn 2003-04 gan ddenu rhagor o ymweliadau a gwella boddhad yr ymwelwyr, a gwneud yr Amgueddfa yn atyniad canolog yn y Safle Treftadaeth y Byd. Bydd hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer datblygu cyrchfan lewyrchus i dwristiaid ym Mlaenafon ac yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth am ddiwydiant hanesyddol mwyaf blaenllaw Cymru.

### Datblygiadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (AGG)

Mae AGG yn cael ei datblygu ar y cyd â Dinas a Sir Abertawe. Bydd yn cymryd lle hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru (ADMC) a hen Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe (ADMA). Cyflwynwyd ceisiadau am grantiau i gyrff cyllido er mwyn gwneud yn fawr o'r symiau a gafwyd drwy werthu ADMC.

Cyflwynwyd Cais Rhan II i Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) am grant gwerth £10.699m yn Ebrill 2002, ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr CDL ym mis Gorffennaf 2002. Ynghyd â'r cyllid ychwanegol o Gronfa Amcan Un yr UE (£2.6m), Awdurdod Datblygu Cymru (£2.5m) a Bwrdd Croeso Cymru (£1.5m), a chytundeb Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu £6m i warantu'r project, bu modd cwblhau'r holl gontractau cyllido. O ganlyniad, gwagiwyd Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe, a dechreuodd y gwaith ar y safle tua dechrau Ionawr 2003. Roedd y gweithgareddau cychwynnol yn canolbwyntio ar waith paratoi (clirio'r safle, gosod traeniau, pyst ayb.) a dechreuodd y gwaith pennaf o dan y contract adeiladu tua diwedd Mawrth 2003. Bwriedir i'r Amgueddfa newydd agor yng ngwanwyn 2005.

### Datblygiadau yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru (ADGC)

Yn dilyn cais llwyddiannus i'r CDL am bron i £1m, mae AOCC yn datblygu ADGC i'w gwella i'r safonau sy'n ddisgwyliedig mewn amgueddfa genedlaethol. Mae £350,000 pellach wedi cael ei gymeradwyo o gyllid Amcan Un. Bydd yr ailddatblygiad yn sicrhau bod 60% yn fwy o le yn agored i'r ymwelwyr a bydd yn diogelu ffabrig pedwar adeilad rhestredig y felin, gan ail-arddangos ac ail-ddehongli'r casgliadau a gwella'r cyfleusterau addysg a'r cyfleusterau i ymwelwyr ar y safle gan greu atyniad blaenllaw ar gyfer Dyffryn Teifi.

### Datblygiadau yn y Ganolfan Gasgliadau, Nantgarw

Diolch i werth £3.5m o gyllid datblygu cyfalaf oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, mae'r Amgueddfa yn gallu bwrw ymlaen â'n cynlluniau i ehangu'r Ganolfan Gasgliadau i greu Canolfan Gadwraeth a Mynediad Genedlaethol (CGMG). Nod gyffredinol y project yw datblygu cyfleuster storio gyda'r offer a'r rheolaeth briodol a fydd yn darparu amodau ffisegol ac amgylcheddol addas i ofalu am a chynnal ein casgliadau. Canlyniad uniongyrchol hyn fydd gwella mynediad i'r casgliadau cadw, yn ein hamgueddfeydd ein hunain neu drwy hwyluso trefniadau partneriaeth cynyddol ag eraill neu'n rhithwir drwy gyhoeddiadau a digideiddio. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd 90% o'r lle a ddefnyddir i storio ac arddangos casgliadau yn AOCC yn bodloni'r safonau priodol. Yn ystod 2003-04 byddwn ni'n llunio cynlluniau manwl ar gyfer y datblygiad er mwyn sicrhau'r cyllid ychwanegol sy'n angenrheidiol. Rhagwelir y daw'r CGMG yn llwyr weithredol yn 2007.

### Y Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae polisi'r Amgueddfa ar gronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar yr awdurdod a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Natganiad Rheoli a Memorandwm Cyllid yr Amgueddfa sy'n cyfyngu ar ei chronfeydd cyllid wrth gefn i 2% o gyfanswm ei chyllideb gros a 10% o'i derbyniadau. Mae'r amgueddfa yn anelu at sicrhau sefyllfa ariannol gytbwys bob blwyddyn gan gyrraedd pwynt adennill costau o ran ei hincwm a'i gwariant cynlluniedig.

Mae cronfeydd preifat yr Amgueddfa'n cael eu cynnal ar wahân a'u disgrifio yn y cyfrifon. Nid oes terfyn ar y rhain a pholisi'r Amgueddfa yw adeiladu'r cronfeydd hyn i'w defnyddio fel cyllid ar gyfer projectau a'r cynlluniau Cyfalaf hynny nad yw'n derbyn nawdd craidd ar eu cyfer.

Cyfanswm Cronfeydd yr Amgueddfa ar 31 Mawrth 2003 oedd £86,755,000, a darperir dadansoddiad yn nodiadau'r Cyfrifon Ariannol.

### Polisi Buddsoddi a Pherfformiad

Mae cronfeydd preifat yr Amgueddfa yn cael eu buddsoddi ar ei rhan gan yr ymgynghorwyr buddsoddi, Gerrard Cyf. Mae'r Amgueddfa yn ofalus o ran risgiau ac mae'r asedau ariannol yn cael eu buddsoddi mewn portffolio gyda â llai o risg a chydag elfen fawr yn cael ei chadw mewn buddsoddiadau yn seiliedig ar arian. Er gwaethaf yr agwedd ofalus hon, gwelwyd gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau yn ystod y flwyddyn o £1,711,000 i £1,218,000, oedd yn cyd-fynd â chwymp cyfartalog cyffredinol buddsoddiadau o'r fath.

### Rheoli Risg

Mae Cyngor yr Amgueddfa, Pwyllgorau a'r Cyfarwyddwyr wedi archwilio'r risgiau strategol, busnes a gweithredol o bwys a fydd yn wynebu'r Amgueddfa ac wedi sefydlu system sy'n defnyddio Grŵp Rheoli Risg er mwyn sicrhau bod peryglon yn cael eu hadolygu a'u hadrodd yn chwarterol ar bob lefel o'r sefydliad, a bod y camau gweithredu priodol yn bodoli i liniaru'r peryglon sylweddol. Bu'r mesurau hyn yn llwyr weithredol drwy gydol y flwyddyn yn unol ag argymhellion cyhoeddiedig Pwyllgor Turnbull ac SORP 2000. Yn ogystal, mae'r holl risgiau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn fel rhan annatod o'r broses cynllunio corfforaethol ac maent hefyd yn bwydo'r cynllun archwilio mewnol.

Mae'r peryglon mawr a nodwyd fel rhan o broses o reoli peryglon yn cynnwys peryglon ariannol megis newidiadau yn yr amgylchedd economaidd, dibyniaeth ar gyllid oddi wrth y Cynulliad, anawsterau wrth ddenu cyllid cyfatebol ar gyfer projectau mawr yr Amgueddfa a methiant systemau o bwys; adeiladau, gwasanaethau a goblygiadau iechyd a diogelwch; atebolrwydd i'r cyhoedd a pheryglon cynllunio a phersonél/staffio

### Ymrwymiadau Pensiwn

Mae'r Amgueddfa yn gweithredu Cynllun Pensiwn buddiant diffiniedig sydd ar gael i'r holl staff. Yn gyffredin â'r mwyafrif helaeth o gynlluniau o'r fath mae gwerth asedau'r cynllun wedi lleihau dros y deuddeg mis diwethaf oherwydd y cwymp mawr mewn Buddsoddiadau Ecwitïol. Mae nodyn 17 i'r Adroddiad Ariannol yn cynnig gwybodaeth bellach mewn perthynas â chostau pensiwn yn unol â'r trefniadau trosiannol o dan Ddatganiad Adrodd Ariannol 17. Ar sail cyfrifiadau actwarïaidd a welir yn y nodyn hwnnw, mae gwerth y cynllun heddiw o'i gymharu ag ymrwymiadau posibl y cynllun yn dangos diffyg o £16m. Er y dylid nodi mai gwerth is yw hwn ar gyfer heddiw a'i bod yn bosibl na fydd yn crisialu ond dros nifer sylweddol o flynyddoedd yn y dyfodol, mae'r Amgueddfa yn ystyried camau i fynd i'r afael â'r diffyg. Er bod disgwyl y bydd gwerthoedd buddsoddiadau yn gwella, mae'r Amgueddfa a'r Ymddiriedolwyr wrthi'n adolygu'r strategaeth buddsoddi ac yn cymryd cyngor actwarïaidd pellach mewn perthynas â llwybrau posibl eraill. Yn olaf, mae trafodaethau'n cael eu cynnal i edrych ar y posibilrwydd o uno cynllun yr Amgueddfa â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

### Camau a gymerwyd mewn perthynas â chyflogi gweithwyr anabl

Mae'r Amgueddfa yn gweithredu trefn recriwtio diwahaniaeth ac mae hi bob amser yn barod i ystyried ceisiadau oddi wrth bobl anabl ac i benodi pobl anabl. At hynny, mae'r Amgueddfa'n gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau angenrheidiol i allu gweithio'n effeithiol. Yn ogystal, mae Cynllun Corfforaethol yr Amgueddfa yn cynnwys buddsoddi mewn cyfleusterau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod adeiladau a gwybodaeth yr Amgueddfa yn fwy hygyrch i bobl anabl. Mae gweithgor, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr, yn sicrhau bod yr Amgueddfa yn cyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

### Polisi Iaith Gymraeg

O dan ein Cynllun Iaith cyfoes, rydym ni'n gwneud pob ymdrech i recriwtio staff dwyieithog i adlewyrchu anghenion a gofynion ein hymwelwyr ac i ddarparu'r gwasanaeth rydym ni am ei ddarparu. Mae defnydd priodol o'r Gymraeg ac ymatebion priodol i geisiadau gan siaradwyr Cymraeg, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, yn cael eu cynnwys yn hyfforddiant cyflwyno AOCC ar gyfer yr holl staff.

Dros y tair blynedd nesaf, bydd AOCC yn rhoi Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu ar waith gyda'r bwriad o gynnig gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr a dod yn ganolfan

rhagoriaeth o ran darparu gwasanaeth dwyieithog wyneb yn wyneb.

**Camau a gymerwyd i gynnal neu ddatblygu sut y darperir gwybodaeth ar gyfer staff, ac ymgynghori â hwy**

Mae'r Amgueddfa yn cyfleu gwybodaeth i'w staff drwy wahanol ddulliau gan gynnwys cylchredeg pwyntiau sylw i'r holl staff yn rheolaidd, anerchiadau chwarterol gan y Cyfarwyddwr i'r holl staff, memoranda agored ar fewnrwyd yr Amgueddfa, memoranda i Benaethiaid Adrannau a thrwy ymgynghori a thrafod gyda'r Undebau Llafur cydnabyddedig, y cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol â hwy.

## Aelodaeth y Llys a'r Cyngor

Ym 1990, rhoddwyd Siarter Brenhinol a Statudau atodol newydd i'r Amgueddfa sy'n elusen gofrestredig (Rhif Elusen 525774, Rhif TAW. GB 783 4541 10). Newidiodd y Siarter newydd gyfansoddiad Llys a Chyngor yr Amgueddfa a chadarnhau mai 'Amgueddfa Genedlaethol Cymru' ('The National Museum of Wales') yw'r corff corfforaethol sy'n olynu'r hyn a enwyd yn y Siarter gwreiddiol. Diwygiwyd y Siarter yn 2000 i gydnabod awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yr awdurdod gweithredol yw'r Cyngor sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu cyllid ac eiddo'r Amgueddfa, y mae'r holl arian a gyfrennir gan y Trysorlys neu sy'n dod o ffynonellau eraill a'r holl diroedd, adeiladau, neu roddion mewn da a gymynnir neu a roddir at ddibenion y sefydliad. Mae'r Cyngor yn cwrdd yn gyson i gyflawni ei fusnes. Mae'n dirprwyo awdurdod hefyd i wahanol is-bwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli sy'n ymdrin â materion gweithredol bob dydd.

Ceir manylion aelodau'r Llys a'r Cyngor a enwebwyd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sydd wedi ymadael a'r rhai sydd wedi ymuno mewn ychwanegiad ar yr adroddiad hwn. Mae ymddiriedolwyr yr Amgueddfa yn aelodau o'r Cyngor.

## Archwilydd

Archwilir y cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9 (8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992.

## Prif Swyddfa

Prif swyddfa AOCC yw: Yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP.

## Prif Ymgynghorwyr

| | |
|---|---|
| Bancwyr: | Lloyds TSB, Caerdydd |
| Cyfreithwyr: | Morgan Cole, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol: | Grant Thornton, Caerdydd (tan 31 Mawrth 2003) |
| | PriceWaterhouse Coopers, Caerdydd (o 1 Ebrill 2003) |
| Rheolwyr Buddsoddiadau: | Gerrard Cyf., Caerdydd |
| Rheolwyr y Gronfa Bensiynau: | Mercer Human Resource Consulting, Bryste |
| Trethiant: | Deloitte & Touche, Caerdydd |

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 14 Awst 2003

*G. Wyn Howells*
Trysorydd, ar ran y Cyngor
Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 27 Awst 2003

# Llys a Chyngor AOCC

## LLYS Y LLYWODRAETHWYR

(O I Ebrill 2003 i 27 Awst 2003)

### LLYWYDD

Mathew Prichard, CBE, DL, BA (tan Hyd 2002)
Paul E. Loveluck, CBE, JP (o Hyd 2002 ymlaen)

### IS-LYWYDD

Roger G. Thomas OBE, LLB, CCMI (tan Hyd 2002)
Dr Susan J. Davies, BA (o Hyd 2002 ymlaen)

### TRYSORYDD

G. Wyn Howells ACIB

### AELODAU'R CYNGOR NAD YDYNT YN AELODAU O'R LLYS

Mrs A. Carey-Evans (tan Ebrill 2002)
J.W. Evans CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones OBE, FRSA
M. A. J. Salter, FCA
Jane Peirson Jones YH (o Fawrth 2003 ymlaen)

### PENODWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Dr P.T. Warren CBE, MA
Linda D. Quinn, MSc
C. Malcolm Parry
Yr Athro D Egan (o Ebrill 2003 ymlaen)
H.R.C. Williams (o Ebrill 2003 ymlaen)
Rhiannon Wyn Hughes, MBE (o Ebrilll 2003 ymlaen)
Eirlys Pritchard Jones, BA (tan Fawrth 2003)
Dr Nancy M. Edwards, BA, FSA (tan Fawrth 2003)

### LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Gwag

### PRIFYSGOL CYMRU

Mair Waldo Thomas
Yr Athro J. King

### CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Y Cynghorydd. D. Parry Jones (tan Fai 2003)
Y Cynghorydd G. Richards (o Fehefin 2003 ymlaen)

### AELODAU SENEDDOL CYMRU

W. Griffiths AS

### PENODWYD GAN Y LLYS

D. Bowen Lewis
Dr W. B. Willott, CB
Dr E. Wyn Lewis (tan Dachwedd 2002)
C. Rowland
H. Mansfield
Yr Athro J. Last, CBE (o Fai 2003 ymlaen)
Dr Iolo ap Gwynn (o Fai 2003 ymlaen)

### CYNRYCHIOLWYR YR AWDURDODAU LLEOL

Y Cynghorydd J.G. Jenkins
Y Cynghorydd R. W. Hughes
Y Cynghorydd P. G. Larsen
Y Cynghorydd P. M. Thomas
Dr C. Grace
Y Cynghorydd R. Francis-Davies
Y Cynghorydd D. Rogers
Y Cynghorydd J.A.H. Harries
Y Cynghorydd R. Cass
Y Cynghorydd R. H. Poole
Y Cynghorydd J. Huish
Y Cynghorydd D.I. Bowen

### SEFYDLIADAU YNG NGHYMRU

**Cymdeithas Archaeolegol Cambria**
K. Mascetti (bu farw ym Mai 2002)
**Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol**
G.E. Humphreys
**Cymdeithas Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
H. Looker
**Cyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru**
Y Cyng. R. Francis-Davies
**TUC Cymru**
A. Wellington
**Cyngor CBI Cymru**
Gwag
**Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
M. A. McLaggan
**Cyngor Celfyddydau Cymru**
Cadeirydd
**Bwrdd Croeso Cymru**
J. Jones
**Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru Cyf.**
Gwag
**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
Prif Weithredwr
**Cyngor Archaeoleg Prydain**
F. L. Llewelyn
**Ffederasiwn yr Amgueddfeydd ac Orielau yng Nghymru**
Gwag

## Y CYNGOR

(O I Ebrill 2003 i 27 Awst 2003)

### Y LLYWYDD

Mathew Prichard, CBE, DL, BA (tan Hyd 2002)
Paul E. Loveluck, CBE, YH (o Hyd 2002 ymlaen)

### IS-LYWYDD

Roger G. Thomas OBE, LLB, CCMI (tan Hyd 2002)
Dr Susan J. Davies, BA (o Hyd 2002 ymlaen)

### TRYSORYDD

G. Wyn Howells, A.C.I.B.

### PENODWYD GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

Eirlys Pritchard Jones, BA (tan Fawrth 2003)
Dr Nancy M. Edwards, BA, FSA (tan Fawrth 2003)
Dr P.T. Warren, CBE, MA
Yr Athro D. Egan (o Ebrill 2003 ymlaen)
H.R.C. Williams (o Ebrill 2003 ymlaen)
Rhiannon Wyn Hughes, MBE (o I Ebrill 2003)

### PENODWYD GAN LYS Y LLYWODRAETHWYR

D. Bowen Lewis
Dr W. B Willott, C.B.
Dr E. Wyn Lewis (tan Dachwedd 2002)
Yr Athro J. Last, CBE (o Fai 2003 ymlaen)
Dr Iolo ap Gwynn (o Fai 2003 ymlaen)

### PENODWYD GAN Y CYNGOR

Mrs A. Carey-Evans (tan Ebrill 2002)
J.W. Evans CBE, MA
Yr Athro C. L. Jones OBE, F.R.S.A
M. A. J. Salter, FCA
Jane Peirson Jones, YH (o Fawrth 2003 ymlaen)

## BWRDD Y RHEOLWYR

(O I Ebrill 2002 i 27 Awst 2003)

**Cyfarwyddwr Cyffredinol AOCC**
Anna Southall (tan Hyd 2002)
Michael Houlihan (o Ebrill 2003 ymlaen)
**Cyfarwyddwr Ymchwil ac Addysg**
Eurwyn Wiliam (Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro AOCC, Hyd 2002 i Ebrill 2003)
**Cyfarwyddwr Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol**
John Williams-Davies
**Cyfarwyddwr y Celfyddydau a'r Gwyddorau**
Michael Tooby
**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
Mark Richards
**Cyfarwyddwr Cyllid a TG**
Jon Sheppard (o Dachwedd 2002 ymlaen)
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol**
Robin Gwyn

# Datganiad ar y System Rheoli Arian Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, fi sy'n gyfrifol am gynnal system rheoli fewnol gadarn sy'n helpu i wireddu polisïau, nodau ac amcanion Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a bennir gan y Cyngor, a hynny wrth amddiffyn y cronfeydd ac asedau cyhoeddus yr wyf fi'n bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi o ran Cyfrifon y Llywodraeth.

Bwriedir i'r system rheolaeth fewnol reoli yn hytrach na dileu'r perygl o fethu â gwireddu polisïau, nodau ac amcanion; ni all gynnig sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd felly, ond gall gynnig sicrwydd rhesymol.

Seilir y system ar gyfer rheoli arian yn fewnol ar fframwaith o wybodaeth reolaidd i reolwyr, rheoliadau ariannol, trefniadau gweinyddol gan gynnwys rhannu dyletswyddau a dirprwyo ar wahanol lefelau, yn ôl cyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru (yr Ymddiriedolwyr).

Proses barhaus yw hon gyda'r nod o nodi'r prif risgiau i wireddu polisïau, nodau ac amcanion yr Amgueddfa, gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli nhw mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Roedd y broses yn bodoli drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

Fel Swyddog Cyfrifo, fi sy'n gyfrifol hefyd am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Amgueddfa wedi sefydlu'r prosesau canlynol:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Ymddiriedolwyr ac adolygiadau rheolaidd gan Fwrdd y Rheolwyr a'r Ymddiriedolwyr o'r adroddiadau ariannol chwarterol, sy'n disgrifio perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon.
- Pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall yn erbyn cynnydd a'u monitro mewn cyfarfodydd chwarterol o'r Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol.
- Canllawiau clir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf.
- Adroddiadau chwarterol i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â rheolaeth fewnol.
- Adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol yn ôl y safonau a bennir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth sy'n cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.
- Adolygiad Rheoli Risg cadarn gan grŵp traws-adrannol penodedig i adolygu cynnydd y rheoliadau ar y risgiau mawr chysylltu'n barhaus â'r holl Benaethiaid Adran mewn perthynas â'r newidiadau mewn bygythiadau posibl i wireddu nodau'r Amgueddfa.

Mae gwaith y Grŵp Rheoli Risgiau, yr archwilwyr mewnol, yr Ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol ynghyd â sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill yn bwydo fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

*Michael Houlihan*
Swyddog Cyfrifo
14 Awst 2003

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, rhaid i Fwrdd Ymddiriedolwyr (Cyngor) Amgueddfa Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i ddangos darlun gwir a theg o weithgareddau ariannol yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon yr Amgueddfa, rhaid i'r Ymddiriedolwyr:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddyd cyfrifo a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol a'u defnyddio mewn ffordd gyson;
- barnu ac amcangyfrif mewn ffordd resymol a chall;
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifo a'r datganiadau o arferion cymeradwy a datgelu ac esbonio unrhyw eithriadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr Amgueddfa yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi mai'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd Swyddog Cyfrifo Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Disgrifir cyfrifoldebau perthnasol y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano a dros gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n tystio fy mod i wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalen 12 i 32 o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd gan yr adbrisiad o asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifo a ddisgrifir ar dudalennau 16 ac 17.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Archwilwyr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 10, mae Cyngor a Chyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Genedlaethol Cymru fel y Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed odanynt, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i fel archwiliwr annibynnol, drwy statud ac maent yn cael eu llywio gan y Bwrdd Arferion Archwilio a chanllawiau moesegol y proffesiwn archwilio.

Byddaf yn adrodd fy marn ynghylch p'run a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi arolwg gwir a theg ac a gawsant eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddyd a wnaed yn ôl y gofynion hynny gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddaf yn adrodd fy marn o ran a gafodd y gwariant a'r incwm, ym mhob modd perthnasol, eu cymhwyso ar gyfer y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Byddaf hefyd yn adrodd os, yn fy marn i, yw'r Rhagair yn anghyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r yr Amgueddfa wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na fyddaf yn derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Byddaf yn darllen gweddill yr wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Byddaf yn ystyried y goblygiadau o safbwynt fy nhystysgrif os caf wybod am unrhyw gamfynegiant neu anghysonderau o bwys yn y datganiadau.

Byddaf yn ystyried a yw'r datganiad ar dudalen 10 yn dangos bod yr Amgueddfa wedi cydymffurfio â chanllawiau'r Trysorlys 'llywodraethu corfforaethol: datganiad ar y system rheolaeth ariannol fewnol'. Byddaf yn nodi os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall rwy'n ymwybodol ohoni yn sgil gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

## Sail y farn

Cyflawnais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys archwiliad, ar sail profion, o'r dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae'n cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau sylweddol y mae'r Cyngor a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn eu gwneud wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Amgueddfa, yn cael eu hymarfer yn gyson ac yn cael eu datgelu mewn digon o fanylder.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn casglu'r holl wybodaeth ac esboniadau oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamfynegiant materol; boed hynny'n anfwriadol, neu drwy dwyll neu fathau eraill o afreoleidd-dra a bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth ffurfio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso'n gyffredinol addasrwydd y dull o gyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn cynnig portread gwir a theg o gyflwr materion Amgueddfa Genedlaethol Cymru a'r Grŵp ar 31 Mawrth 2003, o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r modd y'u defnyddiwyd, a llif arian y Grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddyd a wnaed yn odani gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob modd o bwys cafodd y gwariant a'r incwm eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w cyflwyno ar y datganiadau ariannol hyn.

*John Bourn*
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25Medi 2003
Y Swyddfa Archwilio Gwladol
3-4 Park Place, Caerdydd CF10 3 DP

## CYFRIFLEN GYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2003

| | | Cronfeydd cyhoeddus | | Cronfeydd preifat | | 2002-03 | 2001-02 Ailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfyngedig | Di-gyfyngiad | Cyfyngedig | Di-gyfyngiad | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| | Nodiadau | | | | | | |
| **ADNODDAU A GAFWYD** | | | | | | | |
| **Rhoddion a Chymynroddion** | 2 | 28 | 64 | 506 | 133 | **731** | 2901 |
| **Gweithgareddau i Hybu Gwrthrychau:** | | | | | | | |
| Grantiau | 3 | 5,672 | 16,100 | 0 | 0 | **21,772** | 19,072 |
| **Gweithgareddau Codi Arian:** | | | | | | | |
| Incwm o Fuddsoddiadau | | 0 | 0 | 52 | 18 | **70** | 60 |
| Incwm o'r Siop (gan gynnwys yr is-gwmni) | 4 | 0 | 1,138 | 0 | 0 | **1,138** | 1,110 |
| Incwm Arall | 5 | 0 | 1,203 | 13 | 38 | **1,254** | 1,170 |
| | | 0 | 2,341 | 65 | 56 | **2,462** | 2,340 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A GAFWYD** | | **5,700** | **18,505** | **571** | **189** | **24,965** | 24,313 |
| **ADNODDAU A WARIWYD** | 6a7 | | | | | | |
| **Costau Codi Arian** | | | | | | | |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | | 48 | 1,522 | 0 | 26 | **1,596** | 1,696 |
| **Gwariant Elusennol:** | | | | | | | |
| **Costau Gweithgareddau Hybu Gwrthrychau:** | | | | | | | |
| Casglu a Chadwraeth | | 1,643 | 3,180 | 27 | 2 | **4,852** | 4,259 |
| Gwaith Ymchwil | | 167 | 842 | 0 | 0 | **1,009** | 1,112 |
| Arddangos ac Addysg | | 1,384 | 2,051 | 26 | 2 | **3,463** | 3,031 |
| | | 3,194 | 6,073 | 53 | 4 | **9,324** | 8,402 |
| **Costau Cynnal** | | 685 | 8,891 | 6 | 0 | **9,582** | 9,322 |
| **Costau Rheoli a Gweinyddiaeth** | | 86 | 1,182 | 1 | 0 | **1,269** | 1,285 |
| | | 3,965 | 16,146 | 60 | 4 | **20,175** | 19,009 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A WARIWYD** | | **4,013** | **17,668** | **60** | **30** | **21,771** | 20,705 |
| Cyfran o Fenter ar y Cyd | 8 | 1,120 | 0 | 0 | 0 | **1,120** | 503 |
| **ADNODDAU NET A GAFWYD CYN COSTAU TYBIANNOL** | | **2,807** | **837** | **511** | **159** | **4,314** | 4,111 |

## CYFRIFLEN GYFUNOL O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2003

| | Nodiadau | Cronfeydd cyhoeddus | | Cronfeydd preifat | | 2002-03 | 2001-02 Ailddatgan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfyngedig | Di-gyfyngiad | Cyfyngedig | Di-gyfyngiad | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **CYFANSWM A GARIWYD YMLAEN O'R DUDALEN FLAENOROL** | | 2,807 | 837 | 511 | 159 | **4,314** | 4,111 |
| Costau cyfalaf tybiannol | | (4,583) | (36) | 0 | 0 | **(4,619)** | (4,036) |
| **ADNODDAU NET A GAFWYD / (WARIWYD0 CYN TROSGLWYDDO** | | (1,776) | 801 | 511 | 159 | **(305)** | 75 |
| Cost gwrthdro cyfalaf tybiannol | | 4,583 | 36 | 0 | 0 | **4,619** | 4,036 |
| **ANODDAU NET A GAFWYD AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | 2,807 | 837 | 511 | 159 | **4,314** | 4,111 |
| Enillion na wireddwyd wrth adbrisio asedau sefydlog a fwriadwyd ar Ddefnydd Elusennol | 9 | 10,331 | 0 | 125 | 0 | **10,456** | 1,415 |
| Enillion/(Colledion) na wireddwyd wrth adbrisio buddsoddiadau ar y farchnad | 11 | 0 | 0 | (440) | (53) | **(493)** | 3 |
| **SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDD YNYSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | 13,138 | 837 | 196 | 106 | **14,277** | 5,529 |
| **GWEDDILL Y CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN AR 1 EBRILL** | 18 | 69,812 | 179 | 2,210 | 277 | **72,478** | 66,949 |
| **GWEDDILL Y CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH** | 18 | 82,950 | 1,016 | 2,406 | 383 | **86,755** | 72,478 |

**Mae'r holl weithgareddau yn parhau**

**Y cynnydd net mewn cronfeydd y gellir ei briodoli i weithgareddau'r Amgueddfa ei hun yn 2002-03 oedd £14,271,000**

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

## MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2003

| | | AOCC | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **2003** | 2002 | **2003** | 2002 |
| | Nodiadau | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | | |
| Asedau Diriaethol | 9 | **76,233** | 62,227 | **76,233** | 62,227 |
| Asedau Treftadaeth | 10 | **4,038** | 3,248 | **4,038** | 3,248 |
| Cyfran o Fenter ar y Cyd: | 8 | | | | |
| Cyfran o asedau gros | | **1,984** | 808 | **1,984** | 808 |
| Cyfran o ddyledion gros | | **(361)** | (305) | **(361)** | (305) |
| | | **1,623** | 503 | **1,623** | 503 |
| Buddsoddiadau | 11 | **1,218** | 1,711 | **1,218** | 1,711 |
| | | **83,112** | 67,689 | **83,112** | 67,689 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stoc | 12 | **459** | 438 | **495** | 473 |
| Dyledion sy'n ddyledus cyn pen 12 mis | 13 | **3,399** | 2,584 | **3,399** | 2,584 |
| Dyledion sy'n ddyledus ar ôl dros 12 mis | 13 | **0** | 2,500 | **0** | 2,500 |
| Buddsoddiadau | 14 | **0** | 132 | **0** | 132 |
| Arian yn y Banc ac mewn Llaw | | **993** | 681 | **993** | 681 |
| | | **4,851** | 6,335 | **4,887** | 6,370 |
| **CREDYDWYR** | | | | | |
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn | 15 | **(1,260)** | (1,509) | **(1,244)** | (1,498) |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | | **3,591** | 4,826 | **3,643** | 4,872 |
| **CYFANSWM YR ASEDAU AR ÔL TYNNU'R YMEWYMIADAU CYFREDOL** | | **86,703** | 72,515 | **86,755** | 72,561 |
| **DARPARIAETH AR GYFER YMEWYMIADAU A THREULIAU** | | | | | |
| Costau'r Cynllun Diswyddo | 16a17 | **0** | (83) | **0** | (83) |
| **ASEDAU NET** | | **86,703** | 72,432 | **86,755** | 72,478 |
| **CRONFEYDD** | 18 | | | | |
| Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig | | **82,950** | 69,812 | **82,950** | 69,812 |
| Cronfeydd Cyhoeddus Di-gyfyngiad | | **964** | 133 | **1,016** | 179 |
| Cronfeydd Preifat Cyfyngedig | | **2,406** | 2,210 | **2,406** | 2,210 |
| Cronfeydd Preifat Di-gyfyngiad | | **383** | 277 | **383** | 277 |
| | | **86,703** | 72,432 | **86,755** | 72,478 |

Llofnodwyd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan

*Michael Houlihan*, Swyddog Cyfrifo a Chyfarwyddwr Cyffredinol — *G.Wyn Howells*, Trysorydd, ar ran y Cyngor

Cymeradwywyd a llofnodwyd ar 14 Awst 2003 — Cymeradwywyr a llofnodwyd ar 27 Awst 2003

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn.**

## CYFRIFLEN GYFUNOL O'R LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2003

| | | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £'000 | £'000 |
| **Arian Net a Gafwyd o Weithgareddau Busnes** | 19 | **3,468** | 1,559 |
| **Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol** | 20 | **(3,288)** | (1,801) |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | 21 | **132** | 118 |
| **Cynnydd/(Lleihad) mewn Arian** | 22 | **312** | (124) |

**Mae'r nodiadau ar dudalennau 16 i 32 yn rhan o'r cyfrifon hyn**.

# Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2003

## 1. Polisïau Cyfrifo

### 1.1 Sail Cyfrifo

Paratowyd y Cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i gynnwys adbrisiad o'r asedau sefydlog diriaethol yn ôl eu gwerth i'r Amgueddfa. Cawsant eu paratoi yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir mae'r Cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP), o ran Cyfrifo ac Adrodd Elusennau a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr a'r datganiadau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r fath raddau y mae'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Trysorlys wedi cadarnhau y gall yr eithriadau yn y SORP Elusennau fod mewn grym mewn perthynas â'r angen am ddatgelu cost hanesyddol asedau diriaethol.

### 1.2 Mentrau ar y Cyd

Mae gan yr Amgueddfa gyfran o 50% yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (AGGA) Cyf, ac mae'r 50% arall yn eiddo i Ddinas a Sir Abertawe. Mae canlyniadau'r fenter ar y cyd wedi cael eu cynnwys o fewn y datganiadau ariannol ac fe'u cyfrifwyd gan ddefyddio'r dull soddgyfrannau gros o gyfrifo.

### 1.3 Yr Is-gwmni

Mae'r Amgueddfa yn gweithredu is-gwmni masnachu sy'n llwyr eiddo iddi o'r enw Mentrau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (Mentrau AOCC) Cyf., a elwid gynt yn Matchtake Cyf. Mae canlyniadau masnachu'r cwmni wedi cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol. Cafodd cyfrifon Mentrau AOCC Cyf. ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2003 farn archwilio diamod.

### 1.4 Adnoddau a Dderbyniwyd

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol lle bo'r amodau ar gyfer eu derbyn wedi cael eu bodloni. Mae grantiau'n cael eu credydu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail eu derbyn. Mae incwm ar gyfer gwasanaethau a gyflawnwyd yn cael ei gredydu wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rhoddir cyfrif am roddion a chymynroddion lle bo'r amodau ar gyfer eu derbyn yn cael eu bodloni.

### 1.5 Asedau Sefydlog Diriaethol ac Asedau Treftadaeth

Caiff peiriannau, offer, gosodion a dyfeisiau eu prisio yn ôl cost adnewyddu ar ôl dibrisiant. Mae eiddo o dan brydles a rhydd-ddaliad yn cael i brisio yn ôl cost adnewyddu ar ôl dibrisiant, ac eithrio'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw, sy'n cael ei brisio yn ôl ei gwerth ar y farchnad agored. Mae gwaith cynnal-a-chadw bob dydd mewn perthynas â'r eiddo hwn yn cael ei ddileu yn ystod y flwyddyn pan gwneir y gwaith.

Ers 1 Ebrill 2001 mae asedau treftadaeth a brynwyd drwy'r grant sbesimenau neu a gyflwynwyd i'r Amgueddfa wedi cael eu cyfalafu yn ôl cost hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw asedau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi cael eu cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolwyr mae cost prisio yn waharddol.

Ni chaiff eitemau cyfalaf â cost o lai na £5,000 eu cyfalafu. Mae asedau'n cael eu hailbrisio'n broffesiynol bob 5 mlynedd a chânt eu hadbrisio gan ddefnyddio mynegeion (ac eithrio asedau TG nad ydynt yn cael eu mynegeio) yn y cyfamser.

### 1.6 Dibrisiant

Codir dibrisiant ar asedau sefydlog diriaethol (ac eithrio tir rhydd-ddaliad ac asedau treftadaeth). Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Bydd eiddo rhydd-ddaliadol ac eiddo ar brydles hir yn dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol sef rhwng 50 a 125 mlynedd.

Yn unol â chaniatâd SORP Elusennau 2000, nid yw asedau treftadaeth yn dibrisio. Barn yr Ymddiriedolwyr yw bod gwerth gweddilliol gweithiau celf yn uwch na'r gwerth cadw ac mewn perthynas ag asedau treftadaeth eraill, mae eu bywyd defnyddiol amcanestynedig mor hir nad yw dibrisiant yn faterol.

Bydd peiriannau, offer, gosodion a dyfeisiau yn dibrisio dros 5-10 mlynedd. Mewn achosion penodol e.e. eitemau a fydd yn destun newidiadau technolegol neu lle mae ffactor darfodol uchel, defnyddir oes o 3 blynedd

### 1.7 Cronfeydd

Mae Cronfeydd Cyhoeddus a Phreifat Di-gyfyngiad ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr Ymddiriedolwyr, er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Amgueddfa.

Y Cronfeydd Cyfyngedig Cyhoeddus yw'r Grantiau Cyfalaf a'r Grantiau Prynu Sbesimenau a geir oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff eraill y Llywodraeth.

Cronfeydd Cyfyngedig Preifat yw cronfeydd sy'n amodol ar gyfyngiadau penodol a osodir gan gyfranwyr. Rhaid gwario'r cronfeydd hyn yn unol â'r gweithredoedd y cawsant

eu sefydlu odanynt.

### 1.8 Stoc

Mae'r Amgueddfa yn cadw stoc o gyhoediadau ac eitemau eraill i'w gwerthu yn ei Siopau. Mae'r rhain yn cael eu prisio ar isafswm y gost a'r gwerth net y maent yn ei dynnu. Ym marn y Cyngor, nid oes unrhyw wahaniaeth materol rhwng cost hanesyddol y stoc a'r gost adnewyddu gyfredol.

### 1.9 Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Caiff enillion a cholledion wrth eu gwerthu eu credydu neu eu tynnu o'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Caiff newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn ar y farchnad eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw hefyd yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifon Elusennau.

### 1.10 Gwaith Ymchwil a Datblygu

Caiff gwariant ar waith ymchwil a datblygu ei osod yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn y cyflawnir y gwaith ynddo.

### 1.11 Trethiant

Mae Cyllid y Wlad wedi rhoi statws elusen i'r Amgueddfa.

### 1.12 Pensiynau

Caiff cyfraniadau at Gynllun Pensiwn Amgueddfa Genedlaethol Cymru eu codi yn erbyn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn rhannu cost pensiynau dros fywyd gwaith y gweithwyr. Cyfrifir y gost yn ôl y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail y symiau sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn yn ystod y flwyddyn, Mae'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r trefniadau trosiannol a wnaed o dan Safon Adrodd Ariannol 17 - Budd-daliadau Ymddeol a cheir y manylion angenrheidiol yn Nodyn 17.

### 1.13 Cost Cyfalaf

Mae Cyfrifon y Llywodraeth yn gofyn bod cost tybiannol cyfalaf, a gyfrifir drwy osod canran o 6% ar y cyfalaf cyhoeddus cyfartalog a ddefnyddir. Mae cost cyfalaf yn mesur adenillion priodol ar soddgyfrannau'r trethdalwyr.

### 1.14 Deilliannau

Nid oes unrhyw fenthyciadau gan yr Amgueddfa ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau'r llywodraeth o ran ei anghenion arian. Am hynny, nid yw'n agored i beryglon hylifedd. Mae'r holl asedau a dyledion materol mewn punnoedd sterling, ac nid ydynt i agored i beryglon llog nac arian breiniol.

## 2. Rhoddion a Chymynroddion

| | **2002-03** | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Asedau a Gyflwynwyd | **22** | 2,665 |
| Rhoddion Eraill | **709** | 236 |
| | **731** | 2,901 |

## 3. Grantiau Derbyniadwy

| | Cyfyngedig | Di-gyfyngiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyhoeddus | Cyhoeddus | **2002-03** | 2001-02 |
| | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cymhorthdal Grantiau Refeniw | 0 | 16,020 | **16,020** | 14,753 |
| Cymhorthdal Grantiau Prynu Sbesimenau | 1,075 | 0 | **1,075** | 1,075 |
| Cymhorthdal Cyfalaf | 775 | 0 | **775** | 1,165 |
| Grant Amgueddfa Genedlaethol y Glannau | 540 | 0 | **540** | 822 |
| Cronfa Moderneiddio Cyfalaf | 0 | 0 | **0** | 185 |
| Grantiau oddi wrth gyrff eraill y Llywodraeth | 3,282 | 80 | **3,362** | 1,072 |
| | **5,672** | **16,100** | **21,772** | 19,072 |

Derbyniodd yr Amgueddfa Grant gwerth £17,870,000 oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (£17,178,000 yn 2001-02) sy'n cynnwys Cymhorthdal Refeniw, Cyfalaf a Phrynu Sbesimenau. Yn ogystal, derbyniodd yr Amgueddfa grant penodol gwerth £540,000, a drosglwyddwyd i AGGA Cyf.

Roedd y grantiau a gafwyd oddi wrth gyrff eraill y llywodraeth yn cynnwys: grant gwerth £2,768,000 oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri (£571,000 yn 2001-02); grant gwerth £366,000 oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (£245,000 yn 2001-02); grant gwerth £192,000 oddi wrth Fwrdd Croeso Cymru (£50,000 yn 2001-02) a grantiau eraill gwerth £36,000 (£206,000 yn 2001-02).

## 4. Gweithgareddau'r Siopau

| | NMGW | Subsidiary | **2002-03** | 2001-02 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| | | | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| Gwerthiant | 939 | 199 | **1,138** | 1,110 |
| Cost Gwerthu: | | | | |
| Prynu | (475) | (94) | **(569)** | (581) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) yn y Stoc | (1) | 2 | **1** | 29 |
| | (476) | (92) | **(568)** | (552) |
| **Elw Gros Cyn Costau** | **463** | **107** | **570** | 558 |

Yn gynwysedig yng nghostau'r staff (Nodyn 7) mae £331,000 (£259,000 yn 2001-02) ar gyfer costau staff y siopau (£281,000 i AOCC a £50,000 ar gyfer yr Is-gwmni, Mentrau AOCC Cyf.) ac o fewn y costau uniongyrchol eraill mae £33,000 (£26,000 2001-02) ar gyfer costau gweithrediad y siopau. Cyfanswm cyfraniad y Siop at y Cronfeydd Cyhoeddus (Digyfyngiad) oedd £206,000 (£273,000 yn 2001-02).

## 5. Incwm Arall

| | Cronfeydd Cyhoeddus | | Cronfeydd Preifat | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig | Digyfyngiad | Cyfyngedig | Digyfyngiad | **2002-03** | 2001-02 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Addysg, Incwm Ysgolion a Grantiau | 0 | 10 | 0 | 0 | **10** | 24 |
| Incwm Hawlfreintiau ac Ymchwil | 0 | 122 | 0 | 0 | **122** | 79 |
| Nawdd | 0 | 6 | 0 | 36 | **42** | 92 |
| Achylusron Corfforaethol, Rhenti a ffioedd cyfleusterau | 0 | 697 | 0 | 0 | **697** | 673 |
| Llog Banc | 0 | 19 | 13 | 2 | **34** | 33 |
| Arddangos crefftau a Chyfraniadau at Gostau'r Amgueddfa | 0 | 349 | 0 | 0 | **349** | 187 |
| Cyfraniadau Dinas a Sir Abertawe at Broject y Glannau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** | 82 |
| | **0** | **1,203** | **13** | **38** | **1,254** | 1,170 |

## 6. Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd

| | Costau | Costau | Trosglwyddiad | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff | Uniongyrchol | y Glannau | Dibrisiant | **2002-03** | 2001-02 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Costau Cynhyrchu Cronfeydd** | | | | | | |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | 536 | 1,012 | 0 | 48 | **1,596** | 1,696 |
| **Gwariant Elusennol:** | | | | | | |
| **Costau Gweithgareddau i Hyrwyddo Gwrthrychau:** | | | | | | |
| Casgliadau a Chadwraeth | 2,455 | 1,004 | 1,171 | 222 | **4,852** | 4,259 |
| Gwaith Ymchwil | 679 | 269 | 0 | 61 | **1,009** | 1,112 |
| Adrddangosfeydd ac Addysg | 742 | 1,484 | 1,170 | 67 | **3,463** | 3,031 |
| | 3,876 | 2,757 | 2,341 | 350 | **9,324** | 8,402 |
| **Costau Cynnal** | 7,656 | 1,235 | 0 | 691 | **9,582** | 9,322 |
| **Costau Rheoli a Gweinyddiaeth** | 964 | 218 | 0 | 87 | **1,269** | 1,285 |
| | 12,496 | 4,210 | 2,341 | 1,128 | **20,175** | 19,009 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a Wariwyd** | **13,032** | **5,222** | **2,341** | **1,176** | **21,771** | 20,705 |

Mae gwariant Trosglwyddiad y Glannau yn cynnwys taliadau a wnaed gan yr Amgueddfa i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe Cyf. (Gweler Nodyn 8).

Caiff y gwariant ei ddyrannu ar draws y chwe phennawd gwariant ar sail dosraniad y staff, arwynebedd y llawr a thrwy ddyraniad uniongyrchol fel y bo'n briodol.

Cynhwysir swm o £30,500 (£29,500 yn 2001-02) yn y costau rheoli a gweinyddiaeth ar gyfer tâl yr archwilwyr, £27,000 ar gyfer y ffi archwilio a £3,500 am waith arall.

## 7. Costau Staff

**(a) Costau Staff yn ystod y flwyddyn:**

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | **10,671** | 9,621 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **697** | 607 |
| Costau Pensiwn Eraill | **1,532** | 2,149 |
| Costau Diswyddo | **132** | 34 |
| | **13,032** | 12,411 |

**(b) Dyma nifer gyfartalog misol y gweithwyr:**

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Casgliadau a Chadwraeth | **104** | 100 |
| Gwaith Ymchwil | **29** | 28 |
| Arddangosfeydd ac Addysg | **31** | 28 |
| Ategol | **325** | 317 |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | **23** | 21 |
| Rheolaeth a Gweinyddiaeth | **41** | 41 |
| | **553** | 535 |

**(c) Staff uwch**

Nid Cyfarwyddwyr Cwmni mo uwch staff yr Amgueddfa yn ystyr y Deddfau Cwmnïau, y mae'r "Cod Greenbury" ar ddatgelu manylion cyflogau ayb. yn cyfeirio ato. Mae uwch staff yr Amgueddfa wedi llofnodi contractau cyflogaeth safonol nad ydynt yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth breifat am eu cyflogau ayb. Yn ogystal, mae gan holl weithwyr yr Amgueddfa hawliau statudol i breifatrwydd o dan y Deddfau Gwarchod Data a'r ddeddfwriaeth Hawliau Dynol. Am hynny mae'r staff uwch wedi atal eu caniatâd i gyhoeddi eu manylion preifat, fel y mae cyfarwyddyd DAO (GEN) 12/00 y Trysorlys yn ei ganiatáu.

Mae'r Amgueddfa o'r farn bod y wybodaeth ganlynol yn cynnig dealltwriaeth drylwyr am fanylion y staff uwch.

### Y Tîm Rheoli Uwch

Cyflogwyd Ms Anna Southall yn Gyfarwyddwr Cyffredinol o dan gontract tymor penodedig o 5 mlynedd a ddaeth i ben ar 1 Tachwedd 2002. Roedd tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnwys cyflog sylfaenol o £35,055 (£66,263 yn 2001-02); taliad bonws o £7,702 (£4,182 yn 2001-02) a chyfraniadau pensiwn o £5,889 (£9,741 yn 2001-02), sef cyfanswm o £48,646 (£80,186 yn 2001-02). Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod cyffredin o'r cynllun pensiwn.

Heblaw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, roedd y gweithwyr canlynol yn creu Bwrdd y Cyfarwyddwyr h.y. swyddi rheoli uchaf y tîm Rheoli Uwch yn ystod 2002-03:

Dr Eurwyn Wiliam, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (a Chyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro Tach 02 i Ebr 03)

Mr John Williams-Davies, Cyfarwyddwr Amgueddfa Werin Cymru

Mr Mike Tooby, Cyfarwyddwr yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

Mr Mark Richards, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

Mr Robin Gwyn, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Strategol

Mr Jonathan Sheppard (o Tach 02), Cyfarwyddwr Cyllid a TG

Roedd cyflogau'r Rheolwyr Uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol fel a ganlyn:

| Cwmpas | Nifer |
|---|---|
| £20,000 - £29,999 | 1 |
| £40,000 - £49,999 | 1 |
| £50,000 - £59,999 | 3 |
| £60,000 - £69,999 | 1 |

Roedd y trefniadau pensiwn ar gyfer y bobl uchod yr un fath ag ar gyfer gweithwyr eraill yr Amgueddfa oedd yn cyfrannu at gynllun pensiwn galwedigaethol yr Amgueddfa, fel a ddisgrifiwyd yn Nodyn 17 i'r cyfrifon.

**(d) Aelodau'r Cyngor**

Nid yw aelodau'r Cyngor yn derbyn unrhyw dâl. Talwyd cyfanswm o £23,000 mewn costau teithio, cynhaliaeth a llety ar gyfer aelodau ei bwyllgorau (£17,000 yn 2001-02). Ad-dalwyd costau i gyfanswm o 11 o aelodau o'r cyngor.

## 8. Cyfran o Fenter ar y Cyd

Mae gan yr Amgueddfa gyfran o 50% yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (AGGA) Cyf. (Rhif Elusen 1090512). Prif nod AGGA Cyf. yw sefydlu, er budd y cyhoedd, amgueddfa yn Abertawe i gadw ac arddangos (inter alia) holl gasgliadau diwydiannol a morol AOCC a Dinas a Sir Abertawe. Pe bai AGGA Cyf. yn cael ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, mae ei erthyglau a'i memorandwm cyweithio yn nodi y caiff unrhyw eiddo sy'n eiddo i'r elusen neu a freinir ynddi ei drosglwyddo i elusen neu elusennau eraill ag amcanion tebyg.

Mae cyfran yr Amgueddfa o asedau net y Fenter ar y Cyd yn cynnwys:

| | **2003** | 2002 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Asedau Sefydlog | **1,409** | 434 |
| Asedau Cyfredol | **575** | 374 |
| Ymrwymiadau Cyfredol | **(361)** | (305) |
| **Asedau Net** | **1,623** | 503 |

Talodd yr Amgueddfa'r grantiau isod i AGGA Cyf.:

| | Note | **2003** | 2002 |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | £'000 |
| Oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 2 | **540** | 822 |
| O Dderbyniadau gwerthu ADMC | 20 | **1,801** | 138 |
| **Cyfanswm y Grant a Drosglwyddwyd** | 6 | **2,341** | 960 |

## 9. Asesau Sefydlog Diriaethol

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliad | Eiddo ar Brydles | Peiriannau a Cherbydau | Gosodiadau, Dyfeisiau ac Offer | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 14,539 | 47,096 | 493 | 2,148 | **64,276** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 4,482 | 20 | 14 | 210 | **4,726** |
| Adbrisiad | 3,061 | 7,581 | 16 | 40 | **10,698** |
| **Ar 31 Mawrth** | **22,082** | **54,697** | **523** | **2,398** | **79,700** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 204 | 380 | 319 | 1,146 | **2,049** |
| Swm ar gyfer y Flwyddyn | 290 | 380 | 51 | 455 | **1,176** |
| Adbrisiad | 80 | 122 | 11 | 29 | **242** |
| **Ar 31 Mawrth** | **574** | **882** | **381** | **1,630** | **3,467** |
| **Gwerth Net ar Bapur** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 14,335 | 46,716 | 174 | 1,002 | 62,227 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **21,508** | **53,815** | **142** | **768** | **76,233** |

Cafodd asedau sefydlog diriaethol yr Amgueddfa eu gwerthuso'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2001 gan y Syrfewyr Siartredig Cooke and Arkwright, yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

## 10. Asedau Treftadaeth

Mae'r Asedau Treftadaeth a gafwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys

| | Celf | Adeiladau Hanesyddol | Arall | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| *"Eliffant"* gan David Jones | 13 | - | - | **13** |
| *"Tirwedd ger Pencerrig"* gan T. Jones | 36 | - | - | **36** |
| *"O Willesden Green, Hydref"* gan Leon Kossoff | 134 | - | - | **134** |
| *"Di-deitl (Hanes)"* gan Rachel Whiteread | 120 | - | - | **120** |
| *"Tirlun gyda Phorth Bwa"* gan Adam Pynacker | 159 | - | - | **159** |
| *"Turandot"* gan Kevin Sinnot | 12 | - | - | **12** |
| Pâr o Ganwyllbrennau Arian o Oes Victoria | - | - | 6 | **6** |
| Cwpan Cymun a Chlawr Arian | - | - | 10 | **10** |
| Cadair Coed Derw, Awn Pugin | - | - | 31 | **31** |
| Menywod mewn Gwisg o'r 17eg ganrif | - | - | 10 | **10** |
| Llafn Gwayw-fwyell o'r Oes Efydd Cynnar | - | - | 5 | **5** |
| Bythynnod Fron Haul | - | 7 | - | **7** |
| Eglwys Llandeilo Talybont | - | 33 | - | **33** |
| Gardd Eidalaidd | - | 187 | - | **187** |
| Nant Wallter | - | 7 | - | **7** |
| Beudy Cae Adda | - | 20 | - | **20** |
| **Cyfanswm yr Ychwanegiadau yn ystod y Flwyddyn** | **474** | **254** | **62** | **790** |
| | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 2,911 | 305 | 32 | 3,248 |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **3,385** | **559** | **94** | **4,038** |

## 11. Buddsoddiadau mewn Asedau Sefydlog

| 11 | **AOCC** | | **Cyfunol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2002-03** | 2001-02 | **2002-03** | 2001-02 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | **1,711** | 1,708 | **1,711** | 1,708 |
| Ennillion/(Colledion) Net wrth Ailbrisio | **(493)** | 3 | **(493)** | 3 |
| Gwerth ar y Farchnad ar 31 Mawrth | **1,218** | 1,711 | **1,218** | 1,711 |

Cost hanesyddol y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2003 oedd £951,000 (£951,000 ar 31 Mawrth 2002). Mae'r portffolio yn cynnwys Buddsoddiadau Cyfunol (Unedau Buddsoddi) a awdurdodwyd gan y Bwrdd Gwarantau a Buddsoddiadau.

## 12. Stoc

| | AOCC | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2003** | 2002 | **2003** | 2002 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Nwyddau'r Siop ar Werth | **269** | 269 | **305** | 304 |
| Stoc cyhoeddiadau a ddelir ar wahân | **190** | 169 | **190** | 169 |
| | **459** | 438 | **495** | 473 |

## 13. Dyledwyr

| | AOCC | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | | Restated | | Restated |
| | **2003** | 2002 | **2003** | 2002 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen 12 mis:** | | | | |
| Dyledwyr Masnachol | **221** | 141 | **221** | 141 |
| Llai'r Ddarpariaeth Dyledion Gwael ac Amheus | **(1)** | 0 | **(1)** | 0 |
| Gwerthu Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru | **2,061** | 1,363 | **2,061** | 1,363 |
| Dyledwyr Eraill | **1,001** | 995 | **1,001** | 995 |
| Rhagdaliadau | **117** | 85 | **117** | 85 |
| | **3,399** | 2,584 | **3,399** | 2,584 |
| **Symiau fydd yn ddyledus ar ôl 12 mis:** | | | | |
| Gwerthu Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru | **0** | 2,500 | **0** | 2,500 |
| | **3,399** | 5,084 | **3,399** | 5,084 |

Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer y llynedd wedi cael eu hail-ddatgan. Nid oes unrhyw newid i ffigur cyffredinol y dyledwyr ar gyfer y llynedd.

Balans yr elw o werthu Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ddal ar ran yr Amgueddfa oedd £2,061,000 ar 31 Mawrth 2003 (£3,862,500 ar 31 Mawrth 2002). Mae'r Amgueddfa yn rhagweld y caiff gweddill y balans sef £2,061,000 ei dynnu cyn pen y 12 mis nesaf (tynnwyd £1,801,000 yn 2002-03) i helpu i ariannu costau datblygu/adeiladu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

## 14. Buddsoddiadau Asedau Cyfredol

Trosglwyddwyd y cronfeydd oedd yn cael eu dal mewn cyfrif lle roedd rhaid rhoi rhybudd o 14 diwrnod i godi arian i gyfrif llog isel nad yw'n gofyn am unrhyw rybudd i godi'r arian yn ystod y flwyddyn.

## 15. Credydwyr

| | AOCC | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2003** | 2002 | **2003** | 2002 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Symiau fydd yn ddyledus cyn pen un flwyddyn: | | | | |
| Credydwyr Masnachol | **758** | 649 | **758** | 649 |
| Swm sy'n ddyledus i'r Is-gwmni | **16** | 11 | **0** | 0 |
| Credydwyr a Chroniadau Eraill | **486** | 849 | **486** | 849 |
| | **1,260** | 1,509 | **1,244** | 1,498 |

## 16. Darpariaethau ar gyfer Dyledion a Chostau

| | AOCC | | Cyfunol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2003** | 2002 | **2003** | 2002 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cynllun Diswyddo | | | | |
| Balans ar 1 Ebrill | **83** | 167 | **83** | 167 |
| Swm a drosglwyddwyd i SOFA | **(83)** | (84) | **(83)** | (84) |
| Balans ar 31 Mawrth | **0** | **83** | **0** | **83** |

## 17. Costau Pensiwn

**Mae gan yr Amgueddfa gynllun buddiannau diffiniedig. Cyflawnwyd prisiad actwarïaidd llawn ar 1 Ebrill 2001 ac fe'i diweddarwyd ar 31 Mawrth 2003 gan actwari annibynnol cymwysedig. Dyma'r rhagdybiaethau mwyaf a ddefnyddiodd yr actwari (yn nhermau tybiannol):**

| | **Ar 31 Mawrth** | Ar 31 Mawrth |
|---|---|---|
| | **2003** | 2002 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | **4.0%** | 4.5% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau a ohiriwyd | **2.5%** | 3.0% |
| Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gweithredol | **2.5%** | 3.0% |
| Cyfradd Disgownt | **5.5%** | 6.0% |
| Rhagdybiaeth o ran Chwyddiant | **2.5%** | 3.0% |

**Dyma'r asedau yn y cynllun a'r gyfradd adennill a ddisgwylir:**

| | | Ar 31 Mawrth | | Ar 31 Mawrth |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ailddatgan |
| | | 2003 | | 2002 |
| | | £'000 | | £'000 |
| Soddgyfrannau | 7.50% | 23,196 | 7.50% | 28,561 |
| Stociau Sefydlog y Llywodraeth | 4.75% | 948 | 5.25% | 1,301 |
| Stociau'r Llywodraeth ar sail Mynegai | 4.75% | 7,104 | 5.25% | 8,817 |
| Eraill | 4.75% | 334 | 4.00% | 294 |
| Cyfanswm gwerth yr asedau ar y farchnad | | 31,582 | | 38,973 |
| Gwerth actwarïaidd y dyledion | | (47,813) | | (41,834) |
| Diffyg y gellir ei adfer yn y cynllun | | (16,231) | | (2,861) |
| Asedau/(ymrwymiadau) gohiriedig o ran trethi | | 0 | | 0 |
| **Ymrwymiadau pensiwn net** | | **(16,231)** | | (2,861) |

Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer y llynedd wedi cael eu hailddatgan er mwyn cynnig dadansoddiad fwy manwl o'r asedau. Nid oes unrhyw newid yn y ffigur cyffredinol ar gyfer y llynedd.

Os cydnabuwyd yr asedau pensiwn uchod yn y datganiadau ariannol o dan FRS17, byddai asedau a chronfeydd net yr Amgueddfa fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth | Ar 31 Mawrth |
|---|---|---|
| | 2003 | 2002 |
| | £'000 | £'000 |
| **Asedau Net heb gynnwys yr Ymrwymiadau pensiwn** | **86,755** | **72,478** |
| Ymrwymiadau pensiwn | (16,231) | (2,861) |
| **Asedau Net gan gynnwys yr ymrwymiadau pensiwn** | **70,524** | **69,617** |

Gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd oddi wrth yr actwari, talodd yr Amgueddfa gyfraniad unwaith ac am byth o £1,000,000 i'r gronfa yn 2001-02 a chynyddodd ei gyfradd pensiwn o 14.7% i 16.8%, o 1 Ebrill 2002 ymlaen.

Dyma'r cyfraniadau pensiwn ar gyfer 2002-03:

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Yn 2002-03 roedd y costau pensiwn a godwyd yn erbyn incwm yn cynnwys:** | | |
| Pensiynau | **1,449** | 1,066 |
| Chwistrelliad unigol o gyllid cyfalaf oddi wrth y Cynulliad (gweler uchod) | **0** | 1,000 |
| Cynllun diswyddo (nodyn (a) isod) | **83** | 83 |
| | **1,532** | 2,149 |

(a) Cost cyllido pensiynau uwch yn sgil cynllun diswyddo cynnar ym 1994-95 yw dim erbyn heddiw.

Dadansoddiad o'r symiau y gellir eu codi ar gostau gweithredu:

| | Blwyddyn i 31 Mawrth 2003 |
|---|---|
| | £'000 |
| Cost Gwasanaethau | **1,520** |
| Cost Gwasanaethau'r Gorffennol | **0** |
| **Cyfanswm y Tâl Gweithredu** | **1,520** |

Dadansoddiad o'r elw net ar y cynllun pensiwn:

| | Blwyddyn i 31 Mawrth 2003 |
|---|---|
| | £'000 |
| Elw disgwyliedig ar asedau'r cynllun pensiwn | **2,711** |
| Llog ar yr ymrwymiadau pensiwn | **(2,531)** |
| **Elw net** | **180** |

Dadansoddiad o'r swm a gâi ei gydnabod yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol o dan FRS17:

| | Blwyddyn i 31 Mawrth 2003 | Canran o Asedau'r Cynllun | Canran o Ddyledion y Cynllun |
|---|---|---|---|
| | £'000 | | |
| Gwir elw llai'r elw ar asedau | **(10,853)** | 34.4% | |
| Enillion a cholledion ar ddyledion | **(1,865)** | | 3.9% |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau | **(890)** | | |
| Enillion/(colledion) actwarïaidd | **(13,608)** | | 28.5% |
| Addasiad oherwydd cyfyngiad ar warged | **0** | | |
| Enillion/(colledion) net a gydnabuwyd | **(13,608)** | | |

**Newid yn y diffyg ariannol yn ystod y flwyddyn:**

| | Blwyddyn i 31 Mawrth 2003 |
|---|---|
| | £'000 |
| Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn | **(2,861)** |
| Symudiadau yn ystod y flwyddyn : | |
| Cost gwasanaethau cyfredol | **(1,520)** |
| Cyfraniadau a dalwyd | **1,578** |
| Elw net ar asedau/(cost llog) | **180** |
| Enillion/(colledion) actwarïaidd | **(13,608)** |
| Diffyg yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | **(16,231)** |

## 18. Datganiad o Gronfeydd

(a) Cyfanswm y Cronfeydd

| | 1 Ebrill 2002 | Adnoddau i Mewn | Adnoddau a Wariwyd | Symudiadau yn ystod y Flwyddyn | **31 Mawrth 2003** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| **Cronfeydd Cyhoeddus** | | | | | |
| Cyfyngedig- Cyfalaf | 66,273 | 5,717 | (3,591) | 10,331 | **78,730** |
| Cyfyngedig - Sbesimenau | 3,539 | 1,103 | (422) | 0 | **4,220** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | 69,812 | 6,820 | (4,013) | 10,331 | **82,950** |
| Digyfyngiad | 179 | 17,937 | (17,100) | 0 | **1,016** |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Cyhoeddus** | **69,991** | **24,757** | **(21,113)** | **10,331** | **83,966** |
| **Cronfeydd Preifat** | | | | | |
| Cyfyngedig | 2,210 | 571 | (60) | (315) | **2,406** |
| Digyfyngiad | 277 | 189 | (30) | (53) | **383** |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Preifat** | **2,487** | **760** | **(90)** | **(368)** | **2,789** |
| **Cyfanswm** | **72,478** | **25,517** | **(21,203)** | **9,963** | **86,755** |

Roedd gwerth £964,000 o Gronfeydd Cyhoeddus Digyfyngiad ar gyfer gweithgareddau'r Amgueddfa ei hunan ar 31 Mawrth 2003, gyda £52,000 i'w priodoli i Fentrau AOCC Cyf.

(b) Cynrychiolir cyfanswm y cronfeydd cyfalaf cyfyngedig gan:

| | **2003** | 2002 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Tir ac Eiddo Rhydd-ddaliad | **21,046** | 14,335 |
| Eiddo ar Brydles | **53,374** | 46,335 |
| Peiriannau a Cherbydau | **142** | 174 |
| Gosodiadau, Dyfeisiau ac Offer | **770** | 1,002 |
| Cyfanswm yr Asedau Diriaethol | **75,332** | 61,846 |
| Cyfran o Fenter ar y Cyd | **1,623** | 503 |
| Dyledwyr | **2,475** | 4,076 |
| Arian yn y Banc ac mewn Llaw | **(141)** | 3 |
| Credydwyr | **(559)** | (155) |
| | **78,730** | 66,273 |

(c) Cynrychiolir cyfanswm y cronfeydd preifat gan:

| | **2003** | 2002 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Asedau Diriaethol | **900** | 381 |
| Asedau Treftadaeth | **206** | 0 |
| Buddsoddiadau mewn Asedau Sefydlog | **1,218** | 1,711 |
| Dyledwyr | **12** | 0 |
| Buddsoddiadau mewn Asedau Cyfredol | **0** | 132 |
| Arian yn y Banc ac mewn Llaw | **457** | 267 |
| Credydwyr | **(4)** | (4) |
| | **2,789** | 2,487 |

## 19. Cysoni Newidiadau mewn Adnoddau i'r Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredol

| | **2002-03** | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Adnoddau net i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol | **4,314** | 4,111 |
| Asedau a Gyflwynwyd | **(22)** | (2,665) |
| Cyfran o Fenter ar y Cyd | **(1,120)** | (503) |
| Dibrisiant | **1,176** | 1,020 |
| Cynnydd mewn Stoc | **(23)** | (36) |
| Cynnydd mewn Dyledwyr | **(115)** | (594) |
| Cynnydd/(Lleihad) mewn Credydwyr | **(659)** | 310 |
| Lleihad mewn Darpariaethau | **(83)** | (84) |
| **Llif Arian Net i mewn o'r Gweithgareddau Gweithredol** | **3,468** | 1,559 |

## 20. Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiadau Ariannol

| | **2002-03** | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Taliadau i Gaffael Asedau Sefydlog Diriaethol | **(5,089)** | (2,139) |
| Derbyniadau a ryddhawyd drwy werthu ADMC | **1,801** | 338 |
| | **(3,288)** | (1,801) |

## 21. Symudiadau o ran Adnoddau Hylifol

| | **2002-03** | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Buddsoddiadau Tymor Byr ar 1 Ebrill | **132** | 250 |
| Arian ar 1 Ebrill | **681** | 805 |
| Cronfeydd Net ar 1 Ebrill | **813** | 1,055 |
| Llif Arian Net i Mewn/(Allan) | **312** | (124) |
| Symudiadau Net mewn Buddsoddiadau Tymor Byr | **(132)** | (118) |
| **Cronfeydd Net ar 31 Mawrth** | **993** | 813 |
| (Yn cynnwys Buddsoddiad Tymor Byr o ddim a £993,000 mewn arian) | | |

## 22. Symudiadau o ran Arian

| | **2002-03** | 2001-02 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Arian Net ar 1 Ebrill | **681** | 805 |
| Arian Net i Mewn/(Allan) | **312** | (124) |
| **Arian Net ar 31 Mawrth** | **993** | 681 |

## 23. Ymrwymiadau Cyfalaf

| | 2002-03 | 2001-02 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar ddyddiad y fantolen, dyma'r cyfalaf oedd wedi'i gadw wrth gefn: | 2,667 | 13 |

Mae'r arian cadw hwn ar gyfer y gwaith cyfalaf mawr ym Mhwll Mawr ac yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru.

## 24. Ymrwymiadau wrth Gefn

Pe bai Pwll Mawr: yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol yn cau, mae ymrwymiad wrth gefn i ddiogelu siafft y pwll a'r ardaloedd cyfagos. Mae dadgomisiynu yn debygol o gostio rhyw £1 miliwn ac mae'r swm wedi ei warantu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## 25. Trafodion Cefnogwyr Cysylltiedig

Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Ystyrir y Cynulliad felly fel cefnogwr cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa gyllid oddi wrth y Cynulliad ar ffurf Cymhorthdal Refeniw, Cyfalaf a Grant Prynu Sbesimenau, ynghyd â grant arbennig i ddatblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.

Talodd yr Amgueddfa grantiau i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf. (y mae ganddi gyran o 50% ynddi) o'r grant arbennig a gafodd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru a hefyd o'r derbyniadau a gafwyd o werthu ADMC.

Yn ystod y flwyddyn cafodd yr Amgueddfa drafodion materol amrywiol gyda chyrff eraill sy'n cael eu noddi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef:

Bwrdd Croeso Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

CADW

Talodd yr Amgueddfa £9,000 i Brifysgol Morgannwg, £19,200 i Brifysgol Caerdydd a chafodd gwerth £1,100 o incwm oddi wrth Techniquest yn 2002-03. Mae Mr R.G. Thomas, yr Is-Lywydd (tan Hyd 02), yn aelod o Gyngor Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Caerdydd ac mae'n aelod o Fwrdd Techniquest.

Talodd yr Amgueddfa £5,000 i Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru yn 2002-03. Mae Dr E. Wiliam, y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, yn aelod o Fwrdd Cyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru.